# Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2002

Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl

**2.47pm**
**Datganiad:** Gwnaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd ddatganiad ar 'Cynllunio – Cyflawni dros Gymru'

**3.25pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
**Roedd mwy na 10 Aelod yn gwrthwynebu'r datganiad busnes. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21 gwnaeth mwy na 3 Aelod gais am i'r gloch gael ei chanu.**

Cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 53
Cymeradwywyd y Datganiad Busnes

Cytunodd y Trefnydd â'r hysbysiad o ddyfarniadau'r Dirprwy Lywydd ynghylch cyflwyno gorchmynion drafft i'w hystyried gan Bwyllgorau Pwnc o dan Reol Sefydlog 22.5. Yn unol â Rheol Sefydlog 5.8 cyflwynodd y Trefnydd, gyda chefnogaeth deg Aelod, gynnig i wrthdroi dyfarniad y Dirprwy Lywydd y dylid cyfeirio Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2002 i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, gwnaeth mwy na thri Aelod gais am i'r gloch gael ei chanu**

Cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 32; Ymatal 15; Yn erbyn 7; Cyfanswm 54
Derbyniwyd y cynnig

**3.54pm**
**Pwyntiau o Drefn**
**Nick Bourne** ar ymweliad Gweinidogol ag Abergwaun yn ddiweddar. Dywedodd **y Llywydd** yr hoffai weld pob Aelod yn cael eu trin â'r un cwrteisi o ran cael gwybodaeth am ymweliadau â'u hetholaethau.

**Phil Williams** o dan Reol Sefydlog 18 ar bolisi golygyddol Cofnod y Trafodion.

**4.02pm**
**Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Araith y Frenhines**

**5.02pm**
**Cynnig i nodi amserlen tri mis arfaethedig Busnes y Cynulliad**
*NDM1224* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r amserlen tri mis arfaethedig ar gyfer Busnes y Cynulliad o dan Reol sefydlog 5.1.

Anfonwyd yr amserlen tri mis arfaethedig ar gyfer Busnes y Cynulliad at yr Aelodau trwy'r e-bost ar 19 Tachwedd 2002.

**Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, gwnaeth mwy na thri Aelod gais am i'r gloch gael ei chanu**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**5.04pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
*NDM1225* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw am ymchwiliad llawn i'r rheswm pam na chafodd ffermwyr yng Nghymru daliadau o dan y Premiwm Blynyddol Defaid nes ar ôl i ffermwyr mewn rhannau eraill o'r DU gael eu taliadau hwy; a

2. Yn galw ymhellach am ddatganiad clir ar ddarparu taliadau cymorth eraill.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol Cymru " a rhoi yn eu lle:
1. Yn nodi bod Cymru wedi gwneud taliadau Premiwm Blynyddol Defaid cyn rhannau eraill o'r DU yn y gorffennol.

2. Yn llongyfarch staff ar brosesu'r taliadau o Bremiwm Blynyddol Defaid i ffermwyr yng Nghymru ac yn nodi y disgwylir y bydd y swm a gânt erbyn diwedd mis Tachwedd 60% yn fwy na'r hyn a gawsant yr un adeg y llynedd.

3. Yn croesawu cyflwyno system TG newydd a fydd yn gyfrwng ar gyfer gwneud holl daliadau CAP i ffermwyr Cymru yn y dyfodol.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn beirniadu'r Gweinidog dros Faterion Gwledig am fethu ag amddiffyn buddiannau ffermwyr Cymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 29; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 29
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, gwnaeth mwy na thri Aelod gais am i'r gloch gael ei chanu**

**Gwelliant 2**
O blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 28; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 48
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.42pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 27 Tachwedd 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a osodwyd ar 25 Tachwedd 2002**

- Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Adroddiad Grant Arbennig Rhif 15 (Cymru) 2002 – LD1696
- Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), Adroddiad ar Grant Arbennig (Rhif 16) (Cymru) 2002 – LD1695

**Dogfennau a osodwyd ar 22 Tachwedd 2002**

- Bwrdd Henebion Cymru Adroddiad Blynyddol 2001-2002: Cadw Henebion Cofrestredig Sy'n Eiddo Preifat - LD1693

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001/02 Cyngor Chwaraeon Cymru - LD1694